

Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Briff Ymchwil

Awst 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru

Tŷ Hywel

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6313**

E-bost: **Nia.Moss@Senedd.Cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Blog: **SeneddYmchwil.blog**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Briff Ymchwil

Awst 2021

Awdur:

Aled Evans, Gareth Howells, Rhiannon Lewis, Sara Moran, Nia Moss, Gruffydd Owen, Lucy Valsamidis



Cynnwys

1. Cyflwyniad..... 1

2. Rhan 1: Mynediad y Farchnad y DU at Nwyddau 2

- 2.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau 2
- 2.2. Yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau 2
- 2.3. Yr egwyddor peidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau 6
- 2.4. Eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau 9
- 2.5. Canllawiau sy'n ymwneud â Rhan 1..... 9
- 2.6. Gogledd Iwerddon..... 10

3. Rhan 2: Mynediad y Farchnad y DU at Gwasanaethau 11

- 3.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau 11
- 3.2. Cydnabyddiaeth gilyddol awdurdodiadau i ddarparu gwasanaethau 11
- 3.3. Rheoleiddiwr gwasanaeth yn gwahaniaethu yn erbyn darparwr gwasanaeth..... 13
- 3.4. Gwasanaethau sydd wedi'u heithrio 14
- 3.5. Effaith ymarferol y ddeddfwriaeth 15
 - Yr effaith ar gymhwysedd datganoledig 15
 - Eithriadau 17

Fframweithiau cyffredin: rheoli gwahaniaethau ar y cyd.....	19
Lefelau safonau	20

4.Rhan 3: Cymwysterau proffesiynol a rheoleiddio mynediad i farchnad y DU21

4.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau.....	21
Egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig	21
Eithriadau i'r egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig.....	22
Triniaeth gyfartal	22
4.2. Effaith ymarferol.....	23
Asesiad unigol.....	23
Cysylltiad â'r Bil Cymwysterau Proffesiynol arfaethedig.....	24

5.Rhan 4: Monitro'r farchnad fewnol26

5.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau	26
Monitro ac adrodd.....	26
Pwerau casglu gwybodaeth.....	27
Llywodraethiant	28
5.2. Effaith ymarferol	29
Rôl a threfniadau llywodraethu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.....	29
Pwerau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd	30

Cysylltiadau rhynglywodraethol a datrys anghydfodau	31
Rôl y Senedd.....	32
Heriau cyfreithiol a gorfodi.....	32

6.Rhan 5: Protocol ynghylch Iwerddon a

Gogledd Iwerddon34

6.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau	34
6.2. Sylw arbennig i'r Protocol a symud nwyddau	34
6.3. Mynediad dirwyrstr	35
6.4. Cymorth gwladwriaethol.....	36
6.5. Effaith ymarferol.....	36
Gweinidogion Cymru a sylw arbennig.....	37
Mynediad dirwyrstr	38
Cymorth gwladwriaethol	38

7.Rhan 6: Cymorth ariannol39

7.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau	39
7.2. Effaith ymarferol	39

8.Rhan 7: Rheoli cymorthdaliadau 41

8.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau.....	41
8.2. Effaith ymarferol.....	41
Cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau yn y dyfodol.....	42

9.Rhan 8: Darpariaethau terfynol.....43

9.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau 43

9.2. Effaith ymarferol..... 43

1. Cyflwyniad

Gosododd Llywodraeth y DU **Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig (284KB)** ar 9 Medi. Roedd hyn yn dilyn **ymgyngoriad pedair wythnos** ar y Bil rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2020.

Cafodd y Bil y Cydsyniad Brenhinol ar 18 Rhagfyr 2020. Gwnaed nifer o welliannau i'r Bil yn ystod ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi. Ni roddodd Senedd Cymru na Senedd yr Alban eu cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil.

Mae'r **Ddeddf** yn cynnwys darpariaethau:

- sy'n gosod rheolau newydd ynghylch sut y gall deddfwrfeydd a llywodraethau yn y DU ddeddfu i reoleiddio nwyddau a gwasanaethau yn y dyfodol;
- ar reoleiddio cymwysterau proffesiynol yn y DU;
- ar weithredu'r protocol ynghylch Iwerddon a Gogledd Iwerddon;
- i roi pwerau gwario newydd i Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig;
- i gadw'n ôl bwerau sy'n gysylltiedig â rheoli cymorthdaliadau.

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi'r prif ddarpariaethau ym mhob rhan o'r Ddeddf ac yn rhoi enghreifftiau damcaniaethol o sut y mae'r Ddeddf yn debygol o weithio'n ymarferol.

2. Rhan 1: Mynediad i Farchnad y DU at Nwyddau

2.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn sefydlu egwyddorion mynediad i farchnad y DU ar gyfer nwyddau. Yr egwyddorion yw:

- yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau,
- yr egwyddor peidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau.

2.2. Yr egwyddor Cydnabyddiaeth Gilyddol ar gyfer nwyddau

Nodir yr **egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol** ar gyfer nwyddau yn adran 2. Mae'r egwyddor yn golygu bod nwyddau sy'n cael eu gwneud mewn un rhan o'r Deyrnas Unedig, neu eu mewnfario iddi, sy'n **cydymffurfio** â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol yn **y rhan honno** o'r Deyrnas Unedig, yn gallu cael eu gwerthu mewn rhannau **eraill** o'r Deyrnas Unedig, **heb orfod cydymffurfio** â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol yn y rhannau eraill hynny.

Yn ogystal, os nad oes gan **un** rhan o'r Deyrnas Unedig ofynion deddfwriaethol sy'n gymwys i'r nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu neu eu mewnfario yno (h.y. heb eu rheoleiddio) gellir gwerthu'r nwyddau o hyd yn y rhannau **eraill** o'r Deyrnas Unedig, **heb orfod cydymffurfio** â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol sy'n gymwys i'r nwyddau yn y rhannau eraill hynny o'r Deyrnas Unedig.

Gelwir y gofynion deddfwriaethol perthnasol yn "**ofynion perthnasol**" yn y Ddeddf. Mae adran 3 yn diffinio'r rhain fel unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gwahardd gwerthu nwyddau drwy gyfeirio at:

- a. nodweddion y nwyddau (megis eu cyfansoddiad, eu hoedran neu eu hansawdd);
- b. y ffordd y cyflwynir y nwyddau (megis deunydd pacio neu labeli);
- c. sut y cynhyrchir y nwyddau (megis y man lle cawsant eu cynhyrchu, gan gynnwys magu, cadw neu ladd anifeiliaid);
- d. adnabod neu olrhain anifail (megis tagio neu ddefnyddio sglodion electronig);
- e. archwilio, asesu, cofrestru, ardystio, cymeradwyo neu awdurdodi'r nwyddau;

- f. y ddogfennaeth neu'r wybodaeth y mae'n rhaid eu cadw neu sy'n gorfod bod gyda'r nwyddau; neu
- g. unrhyw beth arall y mae'n rhaid ei wneud, neu y mae'n rhaid peidio â'i wneud, mewn perthynas â'r nwyddau cyn y gellir eu gwerthu.

Mae adrannau 3(4) – 3(6) yn darparu bod unrhyw '**ofyniad dull gwerthu**', sy'n ofyniad statudol mewn perthynas â'r modd y mae nwyddau'n cael eu gwerthu (h.y. lle y maent yn cael eu gwerthu, i bwy a'u pris), wedi'i eithrio o'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol, oni bai ei fod wedi'i gynllunio'n artiffisial i osgoi gweithredu'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol.

Mae cynnwys "pris" fel gofyniad dull gwerthu yn golygu y dylai gwerthu nwyddau drwy gyfeirio at bris (megis deddfwriaeth isafbrisiau uned) fod y tu allan i gwmpas yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol. Fodd bynnag, gellir cwmpasu hyn o hyd gan yr egwyddor peidio â gwahaniaethu.

Enghraifft ddamcaniaethol 1: **Cnydau a addaswyd yn enetig**

Caniataodd deddfwriaeth yn Lloegr werthu bwyd a wneir drwy ddefnyddio cnydau a addaswyd yn enetig, ar yr amod bod y bwyd wedi'i ardystio.

Mae deddfwriaeth yng Nghymru yn gwahardd gwerthu bwyd a wneir drwy ddefnyddio cnydau a addaswyd yn enetig.

A allai gweithgynhyrchydd yn Lloegr werthu bwyd sydd wedi'i wneud drwy ddefnyddio cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru, ar yr amod ei fod wedi'i ardystio? Gadewch i ni ystyried yr enghraifft a ganlyn:

- Gwneir y bwyd mewn un rhan o'r Deyrnas Unedig (Lloegr).
- Gellir gwerthu'r bwyd yn gyfreithlon yn Lloegr oherwydd ei fod yn cydymffurfio â'r gofyniad perthnasol, sef ei fod wedi'i ardystio.
- Mae'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys. Nid yw'r deddfwriaeth yng Nghymru sy'n gwahardd y gwerthiant yn gymwys a gellir gwerthu'r bwyd yng Nghymru.

Beth pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu profi bod y bwyd yn anniogel ac yn fygythiad difrifol i iechyd pobl? Os felly, gellid ei eithrio o'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol o dan Atodlen 1 i'r Ddeddf – ond mae Atodlen 1 yn nodi nifer o amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y byddai gwaharddiad o'r fath yn gymwys.

Mae adran 4 yn eithrio rhai pethau o'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol. Pe bai gan **un** rhan o'r Deyrnas Unedig, ar y diwrnod cyn i adran 4 ddod i rym, ofyniad perthnasol nad oedd yn cael ei efelychu ym **mhob** un o'r tair rhan arall o'r Deyrnas Unedig (h.y. os yw'r gofyniad perthnasol yn rhywbeth unigryw i un rhan o'r Deyrnas Unedig), ni fydd yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys. Fodd bynnag, os yw'r gofyniad unigryw yn cael ei **newid o ran sylwedd** wedi hynny, bydd yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys.

Enghraifft ddamcaniaethol 2: Cynnwys diod feddal

Mae deddfwriaeth yn yr Alban yn gwahardd cynnwys mwy na 0.5g o siwgr mewn litr o ddiod feddal. Mae'r deddfwriaeth mewn grym y diwrnod cyn i adran 4 ddod i rym.

Mae cynnwys siwgr y botel o ddiod feddal yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon heb ei reoleiddio.

A ellid mewnfario diod feddal a weithgynhyrchwyd dramor i Loegr a'i gwerthu yn yr Alban er bod ei chynnwys siwgr yn fwy na 0.5g?

- Mae'r ddiod feddal wedi'i mewnfario i un rhan o'r Deyrnas Unedig (Lloegr).
- Gellir gwerthu'r ddiod feddal yn gyfreithlon yn Lloegr oherwydd nad oes gofynion perthnasol i gydymffurfio â hwy (mae cynnwys siwgr diodydd meddal heb ei reoleiddio yn Lloegr)
- Ond mae deddfwriaeth yr Alban ar gynnwys siwgr yn ofyniad perthnasol unigryw sydd mewn grym cyn i adran 4 ddod i rym. Nid yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys ac ni ellir gwerthu'r botel o ddiod feddal yn yr Alban oherwydd bod ei chynnwys siwgr yn uwch na 0.5g.

Ar ôl i adran 4 ddod i rym, mae'r Alban yn diwygio'r deddfwriaeth berthnasol i leihau faint o siwgr y gellir ei gynnwys mewn potel o ddiod feddal i 0.2g. Yn dilyn y newid hwn, a allai diod feddal sydd wedi'i gweithgynhyrchu dramor a'i mewnfario i Loegr gael ei gwerthu yn yr Alban er bod ei chynnwys siwgr yn uwch na 0.2g?

- Mae'r ddiod feddal wedi'i mewnfario i un rhan o'r Deyrnas Unedig (Lloegr).
- Gellir gwerthu'r ddiod feddal yn gyfreithlon yn Lloegr oherwydd nad oes gofynion perthnasol i gydymffurfio â hwy (mae cynnwys siwgr diodydd meddal heb ei reoleiddio yn Lloegr)
- Mae'r newid yn y gofyniad uchafswm cynnwys siwgr yn neddfwriaeth yr Alban yn debygol o fod yn newid o ran sylwedd. Gall yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol bellach fod yn gymwys a gall diod feddal sy'n cynnwys mwy na 0.2g o siwgr gael ei gwerthu yn yr Alban, er bod Senedd yr Alban wedi deddfu i leihau cynnwys siwgr diodydd meddal.

Nid yw gwerthiannau a wneir at ddiben **swyddogaeth gyhoeddus** yn cael eu cwmpasu gan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol.

Enghraifft ddamcaniaethol 3: **Presgripsiwn y GIG**

(Daw'r enghraifft o Nodiadau Esboniadol y Bil)

Ni fyddai cyflenwi meddyginiaeth gan y GIG i glaf drwy bresgripsiwn yn cael ei gwmpasu gan ei fod yn werthiant a wneir gan awdurdod cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus.

2.3. Yr Egwyddor Peidio â Gwahaniaethu ar gyfer nwyddau

Nodir yr **egwyddor peidio â gwahaniaethu** ar gyfer nwyddau yn adran 5. Mae'r egwyddor peidio â gwahaniaethu yn golygu y gwaherddir gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol yn seiliedig ar **driniaeth wahaniaethol** i nwyddau lleol a nwyddau sy'n dod i mewn i'r wlad.

Byddai'n rhaid i'r driniaeth wahaniaethol ddeillio o ofyniad perthnasol. Mae adran 6 yn diffinio gofyniad perthnasol mewn rhan o'r Deyrnas Unedig fel unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gymwys i nwyddau a werthir yn y rhan honno ac mae'n cynnwys:

- a.** yr amgylchiadau neu'r dull y gwerthir y nwyddau (er enghraifft, pryd, gan bwy, i bwy neu ar ba delerau y gellir eu gwerthu);
- b.** cludo, storio, trin neu arddangos nwyddau;
- c.** archwilio, cymeradwyo neu awdurdodi nwyddau;
- d.** rheoleiddio busnesau sy'n ymwneud â gwerthu nwyddau penodol.

Mae'r rhestr lawn o'r math o ddeddfwriaeth sydd o fewn cwmpas yr egwyddor peidio â gwahaniaethu yn adran 6(3) o'r Ddeddf.

Diffinnir gwahaniaethu uniongyrchol yn adran 7. Os yw gofyniad perthnasol yn gymwys i nwyddau sy'n dod i mewn i'r wlad, ond nad yw'n gymwys i nwyddau lleol, a bod y gofyniad perthnasol yn rhoi nwyddau sy'n dod i mewn i'r wlad dan anfantis o'u cymharu â nwyddau lleol, mae'n achos o wahaniaethu uniongyrchol ac nid yw'n cael ei ganiatáu.

Enghraifft ddamcaniaethol 4: Gwerthu beiciau

Dywed deddfwriaeth yr Alban fod yn rhaid i feiciau a wneir yng Nghymru gael eu harddangos yn siopau'r Alban mewn modd llai amlwg na beiciau a wneir yn yr Alban. A yw hyn yn achos o wahaniaethu uniongyrchol?

- Nid yw deddfwriaeth yr Alban yn gymwys i nwyddau lleol (beiciau a wneir yn yr Alban).
- Mae deddfwriaeth yr Alban yn rhoi nwyddau sy'n dod i mewn i'r wlad (beiciau a wneir yng Nghymru) dan anfantais o'u cymharu â'r nwyddau lleol.
- Mae'r deddfwriaeth hon yn yr Alban yn gwahaniaethu'n uniongyrchol ac ni chaniateir hyn o dan y Ddeddf.

Diffinnir gwahaniaethu anuniongyrchol yn adran 8. Os nad yw gofyniad perthnasol yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol, ond:

- yn dal i roi nwyddau sy'n dod i mewn i'r wlad dan **anfantais**,
 - yn achosi **effaith andwyol sylweddol ar y gystadleuaeth** yn y farchnad ar gyfer y nwyddau yn y Deyrnas Unedig
 - ni ellir ei ystyried yn rhesymol yn **ddull angenrheidiol o gyflawni nod dilys**,
- mae'n achos o wahaniaethu anuniongyrchol ac ni chaiff ei ganiatáu.

Dywed adran 8(6) mai'r nodau dilys yw:

- a. diogelu bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion;
- b. diogelwch y cyhoedd.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer o dan adran 8(7) o'r Ddeddf i amrywio'r rhestr hon ac ychwanegu neu ddileu nodau dilys, ar yr amod y ceisir cydsyniad y llywodraethau datganoledig. Os na roddir cydsyniad o fewn mis ar ôl gofyn amdano, gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud y rheoliadau heb gael cydsyniad, ond mae'n rhaid iddo gyhoeddi datganiad yn esbonio'r rheswm iddo benderfynu gwneud hynny.

Enghraifft ddamcaniaethol 5: **Cludo anifeiliaid byw**

Dywed deddfwriaeth Gogledd Iwerddon fod yn rhaid bod anifeiliaid byw sy'n cyrraedd marchnadoedd i'w gwerthu yng Ngogledd Iwerddon heb deithio mwy na 110 o filltiroedd o'r man y cawsant eu magu ddiwethaf.

A yw hyn yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn ffermwyr sydd am gludo anifeiliaid byw o Loegr i Ogledd Iwerddon, ond na allant wneud hynny oherwydd y byddai'r pellter teithio bob amser yn fwy na 110 o filltiroedd?

- Mae deddfwriaeth Gogledd Iwerddon yn gymwys i anifeiliaid byw sy'n cael eu cludo o Loegr mewn ffordd sy'n rhoi ffermwyr yn Lloegr dan anfantais o'u cymharu â ffermwyr yng Ngogledd Iwerddon drwy ei gwneud yn anoddach (yn yr achos hwn, yn amhosibl) cludo anifeiliaid byw o Loegr i Ogledd Iwerddon i'w gwerthu.
- Er mwyn gwahaniaethu'n anuniongyrchol, byddai'n rhaid i ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon hefyd gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn y farchnad am anifeiliaid byw yn y Deyrnas Unedig.
- Fodd bynnag, os yw deddfwriaeth Gogledd Iwerddon yn fodd angenrheidiol i gyflawni nod dilys diogelu iechyd anifeiliaid, nid yw'n achos o wahaniaethu anuniongyrchol.
- Gall hyn arwain at achos o ymgyfreitha i benderfynu a yw'r terfyn 110 o filltiroedd yn fodd angenrheidiol i ddiogelu iechyd anifeiliaid. Pe dewiswyd 110 o filltiroedd yn fympwyol heb gydberthynas â diogelu iechyd anifeiliaid, byddai'n annhebygol y gellid cyfiawnhau'r terfyn.

Hefyd, sylwer bod y math hwn o wahaniaethu anuniongyrchol yn cael cymaint o effaith ar Gymru, Lloegr a'r Alban fel y gall fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol. Y rheswm dros hyn yw na fyddai deddfwriaeth Gogledd Iwerddon byth yn cwmpasu anifeiliaid o Ogledd Iwerddon (pan fo deddfwriaeth yn cyfeirio at bellter, mesurir y pellter mewn llinell syth).

Dywed adran 9 fod unrhyw ddeddfwriaeth sydd **mewn grym y diwrnod cyn** i adran 9 ddod i rym **wedi'i heithrio** o'r egwyddor peidio â gwahaniaethu. Fodd bynnag, os yw'r ddeddfwriaeth honno'n **newid o ran sylwedd** wedi hynny, bydd yn dod o fewn cwmpas y Ddeddf ac yn ddarostyngedig i'r egwyddor peidio â gwahaniaethu.

2.4. Eithriadau o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer nwyddau

Mae Atodlen 1 i'r Ddeddf yn rhestru meysydd polisi sydd **wedi'u heithrio** o'r egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau. Mae'r rhestr yn cynnwys bygythiadau i **iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, cemegion, trethiant, plaladdwyr a rhai mesurau sy'n ymwneud â gwrteithiau.**

Hefyd, mae Deddfau Seneddol sy'n cynnwys gofynion perthnasol sy'n gymwys i'r rhan o'r Deyrnas Unedig y mae'r nwyddau'n deillio ohoni a'r rhan y byddant yn cael eu hanfon iddi wedi'u heithrio o'r egwyddor peidio â gwahaniaethu.

Nid yw gwerthiannau a wneir at ddibenion **swyddogaeth gyhoeddus** yn cael eu cwmpasu gan yr egwyddor peidio â gwahaniaethu.

Enghraifft ddamcaniaethol 6: Gwerthu nwyddau yn ystod epidemig

Mae deddfwriaeth yn Lloegr yn gwahardd gwerthu nwyddau o Gymru yn Lloegr oherwydd bod epidemig yng Nghymru nad yw wedi cyrraedd Lloegr eto. A yw hyn yn achos o wahaniaethu uniongyrchol?

- Os gellir cyfiawnhau'r ddeddfwriaeth yn Lloegr yn rhesymol fel ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, nid yw'n achos o wahaniaethu uniongyrchol o dan yr eithriad sy'n ymwneud â bygythiad i iechyd pobl yn Atodlen 1.

Mae adran 10 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r gwaharddiadau i'r egwyddorion mynediad i'r farchnad a nodir yn Atodlen 1. Gall hyn gynnwys meysydd sydd wedi'u heithrio a gwmpesir gan fframwaith cyffredin. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 3.5.

2.5. Canllawiau sy'n ymwneud â Rhan 1

Mae adran 12 yn darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ar unrhyw fater sy'n ymwneud â gweithrediad ymarferol egwyddorion mynediad i farchnad y Deyrnas Unedig neu effaith unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 1.

Gellir cyhoeddi canllawiau i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i gategoriâu penodol o bobl megis masnachwyr neu gyrff sydd â swyddogaeth orfodi mewn perthynas â gofynion rheoliadol a gwmpesir o dan Ran 1 o'r Ddeddf. Mae'r pŵer yn cynnwys pwerau i dynnu'n ôl y canllawiau hynny neu eu hadolygu.

2.6. Gogledd Iwerddon

Mae adran 11 yn addasu'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau mewn perthynas â Gogledd Iwerddon.

Mae'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau'n gymwys i nwyddau cymhwysol Gogledd Iwerddon fel pe baent wedi'u cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon, neu eu mewnfario yno. Ond nid yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys i nwyddau eraill sy'n cael eu cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon, neu'n cael eu mewnfario yno, oni bai eu bod yn symud o Gogledd Iwerddon i Gymru, Lloegr neu'r Alban yn yr un modd â nwyddau sy'n cael eu mewnfario i'r lleoedd hynny o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.

At ddibenion yr egwyddor peidio â gwahaniaethu, nid oes gan nwyddau nad ydynt yn nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon gysylltiad perthnasol â Gogledd Iwerddon, felly ni fyddai'r egwyddor peidio â gwahaniaethu'n gymwys.

Mae adran 47 yn Rhan 5 o'r Ddeddf yn diffinio nwyddau cymhwysol Gogledd Iwerddon drwy gyfeirio at reoliadau a wneir o dan adran 8C(6) o Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018. Gwnaed y **rheoliadau** hyn ym mis Rhagfyr 2020.

Rhan 2: Mynediad i farchnad y DU: Gwasanaethau

2.7. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau

Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn llywodraethu rheoleiddio darparwyr gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae Rhan 2:

- yn sefydlu egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol gofynion awdurdodi i ddarparu gwasanaethau,
- yn gwahardd rheoleiddiwr gwasanaeth rhag gwahaniaethu yn erbyn darparwr gwasanaeth.

2.8. Cydnabyddiaeth Gilyddol Awdurdodiadau i Ddarparu Gwasanaethau

Nodir egwyddor **cydnabyddiaeth gilyddol awdurdodiadau i ddarparu gwasanaethau** yn adran 19. Pan fo'n ofynnol i ddarparwr gwasanaeth gael **caniatâd** rheoleiddiwr cyn darparu gwasanaethau mewn **un** rhan o'r Deyrnas Unedig, nid yw'r gofyniad hwnnw'n gymwys i berson sydd eisoes **wedi'i awdurdodi** i ddarparu'r gwasanaethau hynny mewn rhan **arall** o'r Deyrnas Unedig.

Enghraifft ddamcaniaethol 7: **Gwasanaethau landlord preifat**

Dywed deddfwriaeth Cymru fod yn rhaid i berson sydd am ddarparu gwasanaethau landlord preifat (h.y. llety rhent preifat) yng Nghymru gael caniatâd rheoleiddiwr Cymru cyn y gall y person ddarparu gwasanaethau o'r fath.

Dywed deddfwriaeth Lloegr fod yn rhaid i berson sydd am ddarparu'r un gwasanaethau yn Lloegr gael caniatâd rheoleiddiwr Lloegr cyn y gall y person ddarparu'r gwasanaethau.

- Gall person sydd wedi cael caniatâd rheoleiddiwr i ddarparu gwasanaethau landlord preifat yn Lloegr ddarparu'r gwasanaethau hynny yng Nghymru o dan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol. Ac i'r gwrthwyneb.
- Fodd bynnag, pe bai deddfwriaeth Cymru mewn grym ar y diwrnod cyn i adran 19 ddod i rym, ni fyddai deddfwriaeth Cymru yn gyfystyr â gofyniad awdurdodi o dan y Ddeddf ac ni fyddai'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys oherwydd yr eithriad yn adran 17(5)(c)(i).
- Hefyd, os yw deddfwriaeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gael eu cofrestru mewn perthynas ag **eiddo penodol**, ni fydd deddfwriaeth Cymru yn gyfystyr â gofyniad awdurdodi ac ni fydd yn cael ei chwmpasu gan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol oherwydd yr eithriad yn adran 17(3).
- Ar y llaw arall, pe na bai deddfwriaeth Lloegr mewn grym ar y diwrnod cyn i adran 19 ddod i rym, neu os yw deddfwriaeth Lloegr yn awdurdodi landlordiaid ar sail gyffredinol ar gyfer unrhyw eiddo (yn hytrach na gwneud awdurdodiad yn ofynnol ar gyfer pob eiddo unigol), mae deddfwriaeth Lloegr yn ofyniad awdurdodi a bydd yn cael ei chwmpasu gan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol.
- Byddai hyn yn golygu y gallai landlord sydd wedi cael caniatâd gan reoleiddiwr yn Lloegr i fod yn landlord yng Nghymru fanteisio ar yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol a bod yn landlord yng Nghymru heb gael caniatâd gan reoleiddiwr Cymru.

Sylwer nad yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys i wasanaethau tai cymdeithasol.

2.9. Rheoleiddiwr Gwasanaeth yn Gwahaniaethu yn Erbyn Darparwr Gwasanaeth

O dan adran 20, nid yw gofyniad rheoliadol sy'n **gwahaniaethu'n uniongyrchol** yn erbyn darparwr gwasanaeth yn cael dim effaith. Os yw deddfwriaeth yn dweud na all darparwr gwasanaeth ddarparu gwasanaeth oni bai bod y darparwr gwasanaeth yn **bodloni gofyniad**, a bod y gofyniad:

- a. yn cael yr effaith o drin y darparwr gwasanaeth yn **llai ffafriol** na darparwyr gwasanaeth eraill,
- b. y rheswm dros y driniaeth lai ffafriol yw **cysylltiad perthnasol** (neu ddiffyg cysylltiad perthnasol) y darparwr gwasanaeth â rhan o'r Deyrnas Unedig, mae'r gofyniad yn gwahaniaethu'n uniongyrchol ac nid yw'n cael dim effaith.

Ond ni fydd gofyniad o'r fath yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol os gellir ei gyfiawnhau'n rhesymol fel ymateb i **argyfwng iechyd y cyhoedd**.

Mae gan ddarparwr gwasanaeth gysylltiad perthnasol â rhan o'r Deyrnas Unedig:

- a. os oes gan y darparwr gwasanaeth swyddfa gofrestredig, man busnes neu breswylfa yn y rhan honno;
- b. os yw'r darparwr gwasanaeth yn darparu gwasanaethau o'r rhan honno; neu
- c. os oes gan y darparwr gwasanaeth aelodau, partneriaid, swyddfeydd neu staff sydd â swyddfa gofrestredig, man busnes neu breswylfa yn y rhan honno.

O dan adran 21, nid yw gofyniad rheoliadol sy'n **gwahaniaethu'n anuniongyrchol** yn erbyn darparwr gwasanaeth yn cael dim effaith. Os yw deddfwriaeth yn dweud na all darparwr gwasanaeth ddarparu gwasanaeth oni bai bod y darparwr gwasanaeth yn **bodloni gofyniad**, a bod y gofyniad:

- a. heb fod yn uniongyrchol wahaniaethol (fel y disgrifir uchod),
- b. yn rhoi'r darparwr gwasanaeth dan **anfantais** yn y rhan o'r Deyrnas Unedig lle y mae'r gofyniad yn gymwys;
- c. yn cael **effaith andwyol ar y farchnad**;
- d. ni ellir ei ystyried yn **fodd angenrheidiol i gyflawni nod dilys**, mae'r gofyniad yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol ac nid yw'n cael dim effaith.

Dywed adran 21(7) mai'r nodau dilys yw:

- a.** diogelu bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion;
- b.** diogelu'r cyhoedd;
- c.** gweinyddu cyfiawnder yn effeithlon.

Enghraifft ddamcaniaethol 8: **Gweithwyr amaethyddol**

Mae deddfwriaeth yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr amaethyddol gael sgiliau Cymraeg er mwyn cynnal cymunedau Cymraeg mewn ardaloedd gwledig. A yw hyn yn achos o wahaniaethu uniongyrchol?

- Nid yw'r deddfwriaeth yng Nghymru yn achos o wahaniaethu uniongyrchol, ond gall roi gweithiwr amaethyddol o Loegr dan anfantais o'i gymharu â gweithiwr amaethyddol o Gymru (oherwydd bod gweithiwr amaethyddol o Gymru yn fwy tebygol o allu siarad Cymraeg).
- Er mwyn gwahaniaethu'n anuniongyrchol, byddai'n rhaid i deddfwriaeth Cymru hefyd gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn y farchnad i weithwyr amaethyddol yn y Deyrnas Unedig.
- Nid oes dim nod dilys o dan adran 21(7) a allai gyfiawnhau deddfwriaeth Cymru felly, os yw'n cael effaith andwyol sylweddol ar y farchnad, byddai'n achos o wahaniaethu anuniongyrchol.

2.10. Gwasanaethau sydd wedi'u heithrio

Mae adran 18 yn nodi rhestr o bethau **nad ydynt wedi'u cwmpasu** gan Ran 2 o'r Ddeddf. Mae adran 17(5)(c)(i) hefyd yn eithrio unrhyw deddfwriaeth sydd mewn grym y diwrnod cyn i adran 17 ddod i rym. Felly, ni fydd **gofynion presennol** yn rhan o'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol oni bai bod adrannau 17(6) a 17(7) yn gymwys.

Mae adran 17(6) yn nodi bod gofyniad sy'n bodoli eisoes sy'n cyfateb i ofyniad mewn man arall yn y DU yn cael ei ddwyn o fewn cwmpas os yw'r gofyniad cyfatebol yn cael ei newid o ran sylwedd. Mae adran 17(7) yn nodi bod gofyniad yn cyfateb os yw'r un peth, neu'r un peth o ran sylwedd.

Enghraifft ddamcaniaethol 9: Newid yn y gofyniad gwasanaeth

- **2018:** Daw gofyniad Cymru ynghylch rheoleiddio asiantiaid eiddo i rym
- **2019:** Daw gofyniad cyfatebol Lloegr ynghylch gwasanaethau asiantiaid eiddo i rym
- **2020:** Daw Deddf Marchnad Fewnol y DU i rym
- **2022:** Mae gofyniad Cymru ynghylch gwasanaethau asiantiaid eiddo yn aros yr un peth, felly nid yw'n cael ei gwmpasu gan yr egwyddorion mynediad i'r farchnad
- **2023:** Mae gofyniad cyfatebol Lloegr ynghylch gwasanaethau gwerthwyr tai yn newid o ran sylwedd. Felly, cwmpesir gofynion Cymru a Lloegr ynghylch gwasanaethau asiantiaid eiddo gan yr egwyddorion mynediad i'r farchnad, er gwaethaf diffyg newid o ran gofyniad Cymru.

Mae Atodlen 2 yn cynnwys rhestr o wasanaethau sydd **wedi'u heithrio** o Ran 2. Mae'r rhestr yn cynnwys gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau tai cymdeithasol, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau trafndiaeth. Mae adran 18 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r gwaharddiadau i'r egwyddorion mynediad i'r farchnad a nodir yn Atodlen 2. Gall hyn gynnwys eithrio meysydd a gwmpesir gan fframwaith cyffredin. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 3.5.

2.11. Effaith ymarferol y ddeddfwriaeth

Yr effaith ar gymhwysedd datganoledig

Fel y nodir ym mhenodau 1 a 2 o'r papur briffio hwn, mae'r Ddeddf yn cyflwyno dwy egwyddor allweddol i lywodraethu sut y mae nwyddau a gwasanaethau'n cael eu rheoleiddio yn y DU. Yr egwyddor gyntaf yw cydnabyddiaeth gilyddol a'r ail yw peidio â gwahaniaethu. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r diffiniad o nwyddau yn y Ddeddf yn eang. Yn ogystal â gwerthu nwyddau, mae'n cynnwys pethau fel labelu, cyfansoddiad, deunydd pacio, dulliau cynhyrchu a man cynhyrchu nwyddau. Mae hefyd yn cynnwys nwyddau a fewnforir i'r DU. Felly dim ond amodau'r wlad y cânt eu mewnfurio iddi y bydd yn rhaid i nwyddau a fewnforir i'r DU eu bodloni er mwyn eu galluogi i gael eu gwerthu unrhyw le arall yn y DU.

Mae gwasanaethau'n ymwneud ag amrywiaeth eang o sectorau, gan gynnwys adeiladu, twristiaeth, cyfrifyddiaeth, plymwr a thrydanwyr, asiantiaid eiddo ac asiantiaid gosod eiddo, cyfanwerthwyr, addysg breifat a gwasanaethau sy'n ymwneud â busnes megis rheoli swyddfa neu hysbysebu.

Mae'r diffiniad o wahaniaethu anuniongyrchol yn eang ac mae'n cwmpasu unrhyw ddeddfwriaeth a allai roi nwyddau neu ddarparwyr gwasanaeth sy'n dod i mewn i un rhan o'r DU o ran arall dan anfantais a chael effaith andwyol ar y farchnad. Gellir cyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol am resymau cyfyngedig, h.y. y nodau dilys a nodir yn adran 21(7).

Mynegodd Pwyllgor Materion Allanol a **Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** y Bumed Senedd bryderon ynghylch effaith ymarferol y Ddeddf ar gymhwysedd y Senedd. Yn ei adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil, **dywedodd y Pwyllgor Materion Allanol** y canlynol:

Bydd y Bil yn lleihau effaith ymarferol llawer o ddeddfau sy'n cael eu pasio gan y Senedd yn y dyfodol, gan gyfyngu ar allu'r Senedd i gyflawni blaenoriaethau pobl Cymru

Nid yw Rhannau 1 a 2 o'r Ddeddf yn creu materion newydd a gedwir yn ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac nid ydynt yn cyfyngu'n gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru na'r Senedd rhag deddfu mewn meysydd sydd, ar hyn o bryd, yn feysydd datganoledig. Effaith allweddol y rhan hon o'r Ddeddf yw effaith ymarferol deddfwriaeth y Senedd sy'n dod o fewn ei chwmpas.

Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru ddewis cyflwyno cyfraith newydd i gyfyngu ar werthu ceir disel yng Nghymru neu wahardd hynny. Ond dim ond i gynhyrchwyr o Gymru y gellid cymhwyso unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath. Ni fyddant yn gallu cyfyngu ar werthu ceir disel yng Nghymru, nac yn gwahardd hynny, os cawsant eu cynhyrchu mewn rhan arall o'r DU, neu eu mewnforio'n gyfreithlon yno, oherwydd yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol. Gall y fenter bolisi y tu ôl i ddeddfwriaeth o'r fath gael ei lleihau a gallai roi cynhyrchwyr domestig o Gymru dan anfantais gystadleuol o'u cymharu ag eraill yn y DU. Byddai'r un peth yn wir am wasanaethau. Fodd bynnag, gallai cynhyrchwyr neu ddarparwyr gwasanaeth ddewis dilyn safonau uwch pe bai defnyddwyr yn galw am hynny, er enghraifft.

Er nad yw darpariaethau Rhannau 1 a 2 o Fil gwreiddiol y Farchnad Fewnol a osodwyd yn Nhŷ'r Cyffredin yn newid y setliadau datganoli'n uniongyrchol, amlinellodd y Nodiadau Esboniadol y canlynol am y darpariaethau:

[They] create a new limit on the effect of legislation made in exercise of devolved legislative or executive competence. For example, clause 2(1) disapplies any legislative requirements that do not comply with the mutual recognition principle.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi mai un o gostau'r Bil heb werth ariannol yw y gallai gyfyngu ar effaith gymdeithasol arfaethedig deddfwriaeth ddatganoledig:

In certain instances, where parts of the UK pursue separate policies, the scale of the intended public benefit of local (devolved) measures might not be fully realised due to the more limited number of goods and services to which the policy applies, compared to the counterfactual of separate regulations without mutual recognition. This results from the fact that goods/services originating from elsewhere in the UK may, when placed on the local market, could be complying with different regulations adopted elsewhere in the UK. This could mean that societal benefits that could otherwise have occurred, were it not for mutual recognition, would be foregone.

Hefyd, mewn perthynas â gwasanaethau, nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod llai o atebolrwydd i ddarparwyr gwasanaeth gan y byddant yn gallu dewis pa rannau o ofynion rheoliadol y DU y maent yn eu bodloni wrth weithredu mewn man arall yn y DU.

Amlinellodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol farn Llywodraeth y DU y byddai'r costau hyn heb werth ariannol yn cael eu gwrthbwysu gan ostyngiad mewn costau i fusnesau.

Mae rhai eithriadau yn y Ddeddf i'r ddwy egwyddor allweddol hyn fel y nodir uchod.

Eithriadau

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer rhai eithriadau penodol i egwyddorion cyffredinol cydnabyddiaeth gilyddol nwyddau a gwasanaethau. Nodir y rhain yn fanwl uchod.

Mae eithriad cyffredinol hefyd na fydd y Ddeddf yn gymwys yn ôl-weithredol i deddfwriaeth sydd eisoes mewn grym ar y diwrnod y daw'r darpariaethau yn y Ddeddf i rym oni bai eu bod yn destun newid o ran sylwedd. Nid yw'r Ddeddf yn rhoi diffiniad o newid o ran sylwedd. Nid yw'n bosibl gwybod faint o newid y byddai angen ei wneud i ddarn o deddfwriaeth cyn i'r eithriad hwn beidio â chael

ei gwmpasu ganddo mwyach. Yn ei adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, daeth **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** y Bumed Senedd i'r casgliad a ganlyn:

O dan y Bil, ni fyddai llawer o gyfraith bresennol Cymru yn dod o dan gyfundrefn y farchnad fewnol. Fodd bynnag, nid yw hyn fawr o gysur gan fod unrhyw "newid sylweddol" i ofynion statudol sy'n ymwneud â nwyddau a gwasanaethau o dan gyfreithiau o'r fath yn negyddu'r gwaharddiad a'r amddiffyniad hwn. Fel y mae wedi'i ddrafftio, mae'n ein taro bod y Bil yn cyflwyno cymhelliant gwrthnysig i Lywodraeth a Senedd Cymru osgoi arloesi ym maes llunio polisiau a deddfu. Byddai unrhyw ymgais i ddiweddarau, mireinio neu ddiwygio mewn ffordd arall safonau neu reoliadau sy'n bodoli pan gaiff y Bil ei basio mewn perygl o ddod â safonau o'r fath o fewn cyfundrefn y farchnad fewnol.

Hefyd, caniateir eithriadau o dan y rheolau sy'n llywodraethu Marchnad Sengl yr UE. Mae'r eithriadau hyn, a oedd ar gael o'r blaen i lywodraethau yn y DU, yn ehangach o ran eu cwmpas na'r eithriadau y darperir ar eu cyfer yn y Deddf. Er enghraifft, ym Marchnad Sengl yr UE, gall Aelod-wladwriaethau wyro oddi wrth yr egwyddorion ar sail budd y cyhoedd megis safonau amgylcheddol, amddiffyn treftadaeth neu foesoldeb. Ceir **crynodeb o'r eithriadau gwahanol** y gall Aelod-wladwriaethau eu defnyddio o dan y rheolau sy'n llywodraethu Marchnad Sengl yr UE yn y papur briffio a luniodd Dr Kathryn Wright o Brifysgol Caerefrog ar gyfer pwyllgorau'r Bumed Senedd .

Er bod y Ddeddf yn darparu eithriadau ar wyneb y Bil, gall yr Ysgrifennydd Gwladol newid y rhain drwy ddefnyddio pwerau is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio eithriadau Atodlen 1 ar gyfer nwyddau a hefyd Atodlen 2 sy'n nodi pa sectorau gwasanaeth sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio cydsyniad y llywodraethau datganoledig cyn gwneud rheoliadau o'r fath ond gall fwrw ymlaen os na roddir cydsyniad o fewn mis ar ôl gofyn amdano. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu bwrw ymlaen heb gydsyniad, mae'n rhaid iddo gyhoeddi datganiad yn esbonio pam ei fod wedi penderfynu gwneud hynny. Fel y nodwyd uchod, gall yr Ysgrifennydd Gwladol eithrio meysydd a gwmpesir gan fframwaith cyffredin o gwmpas y Ddeddf.

Mae Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU wedi gorffen **ymgyngoriad cychwynnol** ar ddiwygiadau posibl i Atodlen 2 o'r Ddeddf sy'n nodi eithriadau i'r egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu ar gyfer gwasanaethau a nodir yn Rhan 2 o'r Ddeddf. Yn ogystal ag ymgynghori ar faterion penodol mewn perthynas â'r rhyngweithio rhwng Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009 y DU a'r Ddeddf, gofynnodd yr

ymgyngoriad hefyd am farn am sut y dylid diwygio'r rhestr gwaharddiadau yn Atodlen 2 i adlewyrchu'r ffaith bod y DU wedi gadael yr UE a ffyrdd eraill y gellid gwella marchnad fewnol y DU.

Diwygiwyd eithriadau'r Ddeddf mewn perthynas â gwasanaethau hefyd yn ystod hynt y Bil drwy Dŷ'r Cyffredin. Yn y fersiwn wreiddiol o'r Bil, roedd gofynion mewn perthynas ag awdurdodi neu reoleiddio gwasanaethau wedi'u heithrio, ar yr amod eu bod yn cael eu pasio cyn i'r Bil gael ei ddeddfu. Diwygiwyd y Bil fel pe bai'r un rheoliadau neu reoliadau tebyg yn bodoli mewn rhannau eraill o'r DU cyn i'r Ddeddf gael ei phasio. Os yw'r rheoliadau hynny'n cael eu newid o ran sylwedd mewn un rhan o'r DU, byddai'r holl reoliadau sy'n cyfateb yn dod o fewn cwmpas y Ddeddf.

Fframweithiau cyffredin: rheoli gwahaniaethau ar y cyd

Cytunodd **Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig yn 2017** i sefydlu fframweithiau cyffredin i reoli gwahaniaethau polisi y tu allan i farchnad sengl yr UE. Yn gyffredinol, mae fframweithiau cyffredin yn nodi'r prosesau i'r Llywodraethau drafod a chytuno lle i ddilyn yr un rheolau neu ymwahanu. Gall deddfwriaeth fod yn sail iddynt. Disgwyliwyd cytuno ar y fframweithiau cyffredin erbyn mis Rhagfyr 2020. Maent ar waith dros dro ar hyn o bryd tra bo'r negodiadau'n parhau.

Yn lle hynny, yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd, awgrymodd **Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban** ar y pryd y dylid defnyddio'r rhaglen fframweithiau cyffredin i reoli gwahaniaethau. **Dadleuodd Pwyllgor Materion Allanol y Bumed Senedd** fod y rhaglen fframweithiau cyffredin yn cynrychioli 'dull amgen clir' o ran y Bil.

Amlinellodd Llywodraeth y DU ei barn nad oedd y rhaglen fframweithiau cyffredin, ar ei phen ei hun, yn ddigonol i reoli gwahaniaethau, ond diwygiodd y Bil i alluogi Llywodraeth y DU i wneud eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar sail cytundeb fframwaith cyffredin. Byddai hyn yn golygu, pe bai'r Llywodraethau'n cytuno i bennu rheolau gwahanol drwy fframwaith cyffredin, y gallai Llywodraeth y DU atal yr egwyddorion mynediad i'r farchnad rhag bod yn gymwys i'r rheolau gwahanol hynny. Fodd bynnag, ni fyddai'n rhaid i Lywodraeth y DU wneud hyn.

Lefelau safonau

Yn y **Papur Gwyn** a ragflaenodd y Bil, nododd Llywodraeth y DU ei bod wedi ymrwymo i gynnal safonau uchel ym marchnad fewnol y DU pan fydd y DU yn gadael yr UE ac mewn rhai achosion wrth bennu safonau uwch. Dywedodd y byddai'n gwneud hyn drwy'r rhaglen fframweithiau cyffredin.

Mae'r gwaith hwn ar gynnal safonau'n bwysig oherwydd effaith ymgorffori yn y gyfraith yr egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu. Fel yr esboniwyd uchod, gallai effaith ymarferol y ddeddfwriaeth olygu, pan fo safonau gwahanol ar draws y DU, y gallai cynhyrchwyr symud eu gweithrediadau cynhyrchu nwyddau i'r wlad lle y mae'r safonau isaf posibl ar waith.

Byddai'n rhaid i lywodraethau sy'n pennu safonau uwch ar gyfer eu cynhyrchwyr eu hunain wneud hynny gan wybod y byddent yn rhoi eu cynhyrchwyr dan anfantais gystadleuol. Mae'r Ddeddf yn darparu, lle nad oes safonau'n gymwys (h.y. os nad yw sector wedi'i reoleiddio mewn un rhan o'r DU), na fyddai'n ofynnol iddo fodloni safonau unrhyw le arall. O dan delerau'r Ddeddf, os oes gwahaniaeth yn y ffordd y mae llywodraethau'r DU yn rheoleiddio gwasanaethau, gellid cymell busnesau i ddewis cael eu rheoleiddio mewn rhan o'r DU sydd â'r gofynion rheoliadol isaf, ond parhau i ddarparu'r mwyafrif o'u gwasanaethau yn rhywle arall.

Byddai cytuno ar y cyd ar isafswm safonau ar draws y DU mewn rhai meysydd polisi yn un ffordd o atal safonau rhag gostwng. Ym Marchnad Sengl yr UE, mae safonau cyffredin (neu wedi'u cysoni) yn gymwys i **70-75 y cant o'r nwyddau ar y farchnad** sy'n golygu bod yr egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu yn gymwys mewn 25 y cant yn unig o'r farchnad.

3. Rhan 3: Cymwysterau Proffesiynol a Rheoleiddio Mynediad i Farchnad y DU

3.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau

Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn cyflwyno system ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol ar draws marchnad fewnol y DU.

Pan fo mynediad at broffesiwn yn cael ei reoleiddio yn ôl y gyfraith, mae'r Ddeddf yn darparu y gall gweithiwr proffesiynol cymwysedig mewn un rhan o'r DU gael mynediad at yr un proffesiwn mewn rhan wahanol heb fod angen iddo ailgymhwyso, yn amodol ar eithriadau.

Egwyddor Cydnabyddiaeth Awtomatig

Mae adran 24 o'r Ddeddf yn sefydlu'r egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig mewn perthynas â chymwysterau proffesiynol yn y DU. Pan fydd unigolyn eisiau ymarfer proffesiwn mewn un rhan o'r DU (y rhan berthnasol, ond wedi cymhwyso mewn rhan arall o'r DU (y rhan arall) caiff ei drin yn awtomatig fel unigolyn cymwysedig mewn perthynas â'i broffesiwn yn y rhan berthnasol.

Enghraifft ddamcaniaethol 10: Cymwysterau proffesiynol

Er enghraifft, mae deddfwriaeth ddamcaniaethol yng Nghymru (y rhan berthnasol yn yr enghraifft hon) yn darparu bod angen tri chymhwyster Safon Uwch ar gyfer proffesiwn penodol. Mae deddfwriaeth yn Lloegr (y rhan arall) yn gofyn pum cymhwyster TGAU yn unig i ymarfer yr un proffesiwn.

Er gwaethaf y safon reoliadol uwch yng Nghymru, mae'r egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yn golygu bod person sy'n gymwysedig i ymarfer y proffesiwn yn Lloegr i gael ei drin fel pe bai ganddo'r cymwysterau neu'r profiad sy'n ofynnol i ymarfer y proffesiwn yng Nghymru.

Bydd y gofynion llymach yn dal i fod yn gymwys i weithwyr proffesiynol sydd am gymhwyso yng Nghymru, ond ni ellir eu gorfodi yn erbyn pobl a gymhwysodd yn briodol yn ôl safonau is y tu allan i Gymru.

Eithriadau i'r Egwyddor Cydnabyddiaeth Awtomatig

Mae adran 26 yn darparu **nad yw'r** egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yn **gymwys** o dan adran 24 os oes proses arall ar gyfer cydnabod cymwysterau neu brofiad proffesiynol unigolyn.

Mae'n rhaid i'r broses gydymffurfio ag egwyddorion penodol a nodir yn adran 26 o'r Ddeddf sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn dangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ymarfer y proffesiwn. Gweinyddir y broses amgen gan y corff rheoleiddio perthnasol neu, os nad oes un, yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r weinyddiaeth ddatganoledig sy'n gyfrifol am y proffesiwn. Trafodir hyn ymhellach isod.

O dan adran 27, nid yw'r egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yn gymwys i'r darpariaethau presennol a oedd mewn grym pan ddaeth y Ddeddf yn gyfraith ar 31 Rhagfyr 2020. Mae hyn yn golygu y gellir gorfodi safonau llymach Cymru sydd mewn grym cyn y dyddiad hwn o hyd yn erbyn gweithwyr proffesiynol a gymhwysodd y tu allan i Gymru.

Fodd bynnag, **os oes unrhyw ran o'r DU** yn gwneud darpariaeth ar ôl 31 Rhagfyr 2020 sy'n **newid yr amgylchiadau** pan fo unigolion yn gymwysedig mewn perthynas â phroffesiwn penodol, bydd yn cael ei ddwyn o fewn cwmpas y Ddeddf a bydd yr egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yn gymwys.

Mae eithriadau eraill o dan adran 27 yn cynnwys darpariaethau sy'n cyfyngu ar y gallu i ymarfer proffesiwn cyfreithiol neu'r proffesiwn addysgu mewn ysgol. Mae hyn yn golygu nad yw athro ysgol sydd wedi'i hyfforddi mewn un wlad yn y DU wedi'i gymhwyso'n awtomatig i addysgu mewn un arall. Trafodir hyn ymhellach isod.

Triniaeth gyfartal

Mae gan rai proffesiynau ofynion ymarfer proffesiynol parhaus, megis y rhai sy'n ymwneud â chofrestru, monitro, yswiriant neu ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae adran 28 yn sefydlu'r egwyddor triniaeth gyfartal mewn perthynas â gofynion o'r fath.

Mae'n dweud na ellir trin gweithwyr proffesiynol sydd wedi cymhwyso mewn rhan arall o'r DU yn llai ffafriol mewn perthynas â'r gofynion ymarfer parhaus na'r rhai sydd wed cymhwyso yn y rhan berthnasol, yn seiliedig ar lle yn y DU y cawsant eu cymwysterau neu eu profiad, neu'r math o gymwysterau sydd ganddynt (oni bai

bod modd cyfiawnhau'r olaf). Mae hyn yn golygu na all fod yn ofynnol i weithwyr proffesiynol fodloni gofynion parhaus uwch na gweithwyr proffesiynol sydd wedi cymhwyso'n lleol fel rhan o'u hymarfer parhaus.

3.2. Effaith ymarferol

Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn ymwneud â mynediad at broffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio yn unol â'r gyfraith. Er enghraifft, mae mynediad at broffesiynau penodol yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i rywun gael cymwysterau proffesiynol penodol, megis gradd mewn meddygaeth. Mae rhai proffesiynau hefyd yn pennu gofynion i rywun ddal cymwysterau mwy cyffredinol, megis cymwysterau Safon Uwch, neu i rywun fod wedi cael mathau penodol o brofiad.

Yn y DU, **mae mwy na 160 o broffesiynau** sy'n cael eu rheoleiddio drwy ddeddfwriaeth gan rwydwaith o fwy na 50 o reoleiddwyr, yn ogystal ag ystod o broffesiynau eraill a reoleiddir yn wirfoddol.

Mae **Nodiadau Esboniadol** y Ddeddf yn dweud nad oes system drosfwaol na dull cyson ar hyn o bryd ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol rhwng gwledydd y DU. Mae'n dadlau, os bydd gwahaniaethau proffesiynol yn cynyddu ar draws y DU, y gallai gweithwyr proffesiynol wynebu mwy o gyfyngiadau ar eu gallu i ymarfer ar draws y DU nag ar hyn o bryd.

Mynegodd Llywodraeth flaenorol Cymru **bryderon** bod y cynigion yn dweud bod hwn yn faes lle y mae gwahaniaethau eisoes. Hefyd, lleisiodd bryderon penodol ynghylch cymhwyster athrawon a'r posibilrwydd i'r Ddeddf danseilio safonau addysgu yng Nghymru.

Yn dilyn gwelliannau yn Nhŷ'r Arglwyddi, cafodd y proffesiwn addysgu mewn ysgol ei **eithrio** wedi hynny o'r egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig gan adran 27(7) o'r Ddeddf.

Asesiad unigol

Pan na ellir cydnabod dau gymhwyster proffesiynol o rannau gwahanol o'r DU yn awtomatig, mae'r Ddeddf yn darparu llwybr amgen ar gyfer asesu gofynion rheoliadol gwahanol.

Mae adran 26 o'r Ddeddf yn caniatáu i'r corff rheoleiddio perthnasol ddarparu asesiad unigol fesul achos i benderfynu a ddylid caniatáu i berson gael mynediad at y proffesiwn yn y rhan berthnasol.

Mae'n rhaid i'r broses gydymffurfio â chyfres o egwyddorion. Er enghraifft, mae'n rhaid iddi sicrhau bod cymwysterau neu brofiad a gafwyd mewn unrhyw ran arall o'r DU sy'n dangos yr un safon o ran sylwedd yn cael eu trin fel rhai cyfwerth. Os nad yw hynny'n bosibl, gellir rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddangos y wybodaeth ofynnol drwy brawf neu asesiad.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ofynion prawf o'r fath fod yn gyfyngedig ac yn gymesur â lefel y diffyg. Hynny yw, ni chaiff y prawf fynd ymhellach na bodloni unrhyw ddiffyg mewn gwybodaeth neu brofiad sy'n atal cymwysterau ymgeisydd rhag cael eu cydnabod fel rhai cyfwerth. Gall hyn gynnwys cwblhau modiwlau dethol neu gyrsiau hyfforddi.

Yn ystod hynt y Bil drwy Dŷ'r Arglwyddi, gofynnodd nifer o Arglwyddi a ellir gwrthod cais i ymarfer os na allai'r ymgeisydd fodloni gofynion iaith. Mewn ymateb, **dywedodd** y Farwnes Scott o Bybrook y canlynol:

Relevant authorities will continue to have the ability to refuse access to those who are unable to demonstrate that they meet the standard requirements, such as the Welsh language.

Cysylltiad â'r Bil Cymwysterau Proffesiynol arfaethedig

Daeth cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol rhwng y DU a'r UE i ben yn ffurfiol ar ddiwedd y cyfnod pontio. Fel mesur interim, mae **rheoliadau sy'n deillio o'r UE a rheoliadau a ddargedwir** yn parhau i ddarparu fframwaith sy'n caniatáu i'r DU gydnabod cymwysterau proffesiynol a gafwyd ar draws yr AEE a'r Swistir. Y tu allan i'r UE, mae darpariaeth ynghylch cydnabod cymwysterau yn aml yn cael ei chynnwys mewn cytundebau masnach ryngwladol.

Mae Llywodraeth y DU bellach wedi cyflwyno **Bil Cymwysterau Proffesiynol** "y Bil Cymwysterau" i **ddirymu a disodli'r** system bresennol a chreu fframwaith newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a phrofiad a gafwyd dramor. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig hefyd yn bwriadu cytuno ar fframwaith cyffredin i reoli gwahaniaethau mewn polisi ar gydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Nid yw hyn wedi'i gyhoeddi adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn.

Mae'r Bil yn darparu pŵer i'r awdurdod cenedlaethol priodol wneud rheoliadau sy'n caniatáu i unigolyn â chymwysterau tramor ymarfer proffesiwn rheoleiddiedig yn y DU, neu ran o'r DU, os bodlonir amodau penodol. Ar gyfer Cymru, yr

awdurdod cenedlaethol priodol fydd Gweinidogion Cymru os yw proffesiwn rheoleiddiedig yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig, neu'r Ysgrifennydd Gwladol os na wna hynny.

Os cynhelir asesiad o dan y Bil Cymwysterau bod gan berson hawl i ymarfer proffesiwn rheoleiddiedig ar draws y DU gyfan, mae'n annhebygol y bydd Rhan 3 o'r Ddeddf Marchnad Fewnol yn cael ei defnyddio gan na fydd rhwystrau i fynediad na gwahaniaethau (y mae'r Ddeddf wedi'i chynllunio i'w goresgyn).

Fodd bynnag, gall y Ddeddf Marchnad Fewnol fod yn berthnasol os gwneir penderfyniad o dan y Bil Cymwysterau bod gan berson â chymwysterau tramor hawl i ymarfer proffesiwn rheoleiddiedig mewn un wlad yn y DU.

Gall yr amgylchiadau hyn godi os yw llywodraeth ddatganoledig yn cydnabod bod cymhwyster proffesiynol tramor yn cyfateb i ofynion domestig ar gyfer mynediad at broffesiwn rheoleiddiedig o fewn cymhwysedd datganoledig.

Mae'r senario hon yn debygol o ddod o fewn cwmpas y Ddeddf Marchnad Fewnol gan y byddai'r person yn gyfystyr â 'phreswlydd cymwysedig' yn y DU o dan adran 25 o'r Ddeddf. O dan yr egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig, byddai'r person hwnnw'n cael ei drin fel person cymwysedig i ymarfer y proffesiwn mewn unrhyw ran o'r DU, yn amodol ar eithriadau.

Felly, pe bai'n cael ei gydnabod bod gan berson â chymwysterau tramor hawl i ymarfer proffesiwn rheoleiddiedig yn Lloegr o dan y Bil Cymwysterau, byddai person o'r fath hefyd yn cael ei drin fel person cymwysedig i ymarfer yr un proffesiwn rheoleiddiedig yng Nghymru (a gweddill y DU) o dan y Ddeddf Marchnad Fewnol.

4. Rhan 4: Monitro'r Farchnad Fewnol

4.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau

Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn rhoi swyddogaethau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o ran adrodd, cyngori a monitro gweithrediad y farchnad fewnol, ynghyd â phwerau i gasglu gwybodaeth er mwyn ategu'r swyddogaethau hyn.

Monitro ac adrodd

Rhoddir swyddogaethau adrodd, cyngori a monitro newydd i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â gweithrediad y farchnad fewnol. Nodir y rhain yn adrannau 30-45 o'r Ddeddf.

Mae'n **rhaid** i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd lunio a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad y farchnad fewnol a'i heffeithiolrwydd, cyn 31 Mawrth 2023 ac o leiaf unwaith bob 12 mis wedi hynny.

Cyn 31 Mawrth 2023, a phob 5 mlynedd wedi hynny, mae'n rhaid i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd lunio adroddiad ar y canlynol:

- effeithiolrwydd darpariaethau'r farchnad fewnol yn Rhannau 1-3 o'r Ddeddf;
- effaith gweithrediad y darpariaethau hynny ar ddatblygiad y farchnad fewnol yn y DU;
- unrhyw ryngweithio rhwng gweithrediad y Rhannau hyn a'r fframweithiau cyffredin;
- effaith y fframweithiau cyffredin ar y farchnad fewnol.

Bydd yr adroddiadau blynyddol a'r rhai pum mlynedd yn cael eu gosod gerbron pedair deddfwrfa'r DU.

Gall yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd gynnal adolygiadau a chyhoeddi adroddiadau ar unrhyw adeg ar unrhyw fater sy'n berthnasol, yn ei farn ef, i weithrediad effeithiol y farchnad fewnol neu ddarpariaethau Rhannau 1-3.

O dan adrannau 34 i 36, gall awdurdod cenedlaethol (unrhyw un o'r llywodraethau datganoledig neu Lywodraeth y DU) ofyn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd roi cyngor neu adrodd ar effaith y canlynol ar y farchnad fewnol:

- darpariaethau rheoleiddiedig newydd arfaethedig o fewn ei gymhwysedd ei hun (adran 34);
- darpariaethau presennol o fewn ei gymhwysedd ei hun (adran 35); neu
- ddarpariaethau a wneir gan unrhyw awdurdod y gellir ystyried eu bod yn cael effeithiau niweidiol ar y farchnad fewnol (adran 36): er enghraifft, byddai hyn yn caniatáu i Weinidogion yr Alban ofyn am adroddiad ar ddeddfwriaeth a gaiff ei phasio gan y Senedd.

Gall yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrthod cais am adroddiad, ar yr amod ei fod yn hysbysu'r awdurdod sy'n gofyn amdano o'i resymau dros wneud hynny ac yn cyhoeddi'r hysbysiad hwnnw mewn modd sy'n briodol yn ei farn ef. Os yw'n dewis adrodd o dan adran 36, mae'n rhaid gosod adroddiad o'r fath gerbron y pedair deddfwrfa o fewn chwe mis ar ôl ei gwblhau. Mae'n rhaid i'r llywodraeth a ofynnodd am yr adroddiad a'r llywodraeth y mae'r adroddiad yn ei chwmpasu wneud datganiad ar yr adroddiad i'w deddfwrfa (adran 37).

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd roi copïau o gyngor ar ddarpariaethau rheoliadol arfaethedig i'r holl awdurdodau cenedlaethol ac mae'n rhaid iddo gyhoeddi adroddiadau y mae'n eu llunio.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd lunio a chyhoeddi cyngor a gwybodaeth gyffredinol am sut y bydd yn cyflawni'r swyddogaethau adrodd hyn, gan gynnwys pa ffactorau y mae'n eu hystyried wrth benderfynu a ddylid arfer unrhyw un o'i swyddogaethau ai peidio (adran 39).

Pwerau casglu gwybodaeth

Rhoddir pwerau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gasglu gwybodaeth i ategu ei swyddogaethau monitro, cynghori ac adrodd (adran 41). Gall yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ofyn am unrhyw ddogfennaeth at y dibenion hyn drwy gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth. Gall ofyn bod person sy'n cynnal busnes yn darparu amcangyfrifon, rhagolygon a ffurflenni neu wybodaeth arall fel y nodwyd.

Rhoddir pwerau gorfodi i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn achosion diffyg cydymffurfio (adran 42). Mae'n rhaid iddo gyhoeddi datganiad polisi ar orfodi hysbysiadau casglu gwybodaeth, mewn ymgynghoriad â phob awdurdod cenedlaethol perthnasol. Gall osod cosbau nad ydynt yn fwy na £30,000 ar gyfer cosb swm penodedig, neu £15,000 os cyfrifir y swm drwy gyfeirio at gyfradd ddyddiol (adran 43). O fewn y terfynau hynny, gall yr Ysgrifennydd

Gwladol nodi terfynau ar gyfer cosbau mewn rheoliadau, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r Llywodraethau datganoledig.

Llywodraethiant

Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn adran anweinidogol yn Llywodraeth y DU. Mae adran 40 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun blynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, y cynigion ar gyfer y cynllun a'r adroddiad blynyddol gael eu gosod gerbron y deddfwrfeydd datganoledig, yn ogystal â Senedd y DU.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gefnogi gweithrediad effeithiol y farchnad fewnol er budd pob rhan o'r DU (adran 31). Mae'n rhaid i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd roi sylw i'r angen i weithredu'n deg tuag at yr holl awdurdodau cenedlaethol.

Gall yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddirprwyo ei bwerau o dan y Ddeddf i **Grŵp Gorchwyl Swyddfa'r Farchnad Fewnol** (adran 32). Mae Atodlen 3 yn diwygio Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi Cadeirydd ac Aelodau ar gyfer panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol. Byddai'r Cadeirydd hefyd yn dod yn aelod o Fwrdd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Wrth wneud y penodiadau, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau bod cydbwysedd o aelodau â gwybodaeth am y farchnad fewnol mewn rhannau gwahanol o'r DU. Hefyd, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio cydsyniad y Gweinidogion datganoledig, ond gall fwrw ymlaen heb gydsyniad os nad yw'n dod i law o fewn mis.

Gall panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol gynnwys grwpiau gorchwyl o dri neu fwy o aelodau'r panel i gyflawni'r swyddogaethau monitro ac adrodd yn Rhan 4. Mae'n rhaid i grwpiau gorchwyl Swyddfa'r Farchnad Fewnol weithredu'n annibynnol ar Fwrdd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, ond gallant rannu gwybodaeth â'i gilydd.

Rhwng tair a phum mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal adolygiad o rôl yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a grwpiau gorchwyl Swyddfa'r Farchnad Fewnol wrth gyflawni swyddogaethau o dan Ran 4 (adran 44). Mae'n rhaid i'r adolygiad asesu manteision ac anfanteision opsiynau eraill ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hyn, gan gynnwys trefniadau nad ydynt yn cynnwys yr Awdurdod Cystadleuaeth

a Marchnadoedd. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar gynnwys yr adroddiad ac mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei osod gerbron y deddfwrfeydd datganoledig.

4.2. Effaith ymarferol

Rôl a threfniadau llywodraethu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Yn ei **Phapur Gwyn ar y Farchnad Fewnol**, ymrwymodd Llywodraeth y DU i roi rôl i gorff annibynnol newydd ar gyfer goruchwyllo gweithrediad marchnad fewnol y DU. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r swyddogaethau hyn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Disgwylir i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd roi Swyddfa'r Farchnad Fewnol ar waith yn **hydref 2021**.

Sefydlwyd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn 2013 gan y **Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio** ac mae'n adran anweinidogol annibynnol ar Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU yn rhoi **llyw strategol** iddo nad yw'n rhwymo ar gyfer pob senedd ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi Prif Swyddog Gweithredol ac aelodau i'w Fwrdd. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gweithio i hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr, yn y DU a'r tu allan iddi. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys diogelu defnyddwyr rhag arferion masnachu annheg, ymchwilio i drefniadau uno rhwng sefydliadau er mwyn atal lleihad mewn cystadleuaeth a chymryd camau gorfodi mewn perthynas ag arferion gwrth-gystadleuol gan fusnesau ac unigolion.

Awgrymodd y **Papur Gwyn ar y Farchnad Fewnol** ystod o opsiynau ar gyfer llywodraethu'r farchnad fewnol, gan gynnwys corff annibynnol â chysylltiadau agos â Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig; pwyllgor arbenigol; neu gorff sy'n uniongyrchol atebol i Senedd y DU.

Ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, **nododd** y Cwnsler Cyffredinol y gallai Llywodraeth Cymru dderbyn y cynigion yn Rhan 4 o'r Ddeddf yn amodol ar newidiadau i drefniadau llywodraethu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd:

Mae'r swyddogaethau a gynigir ar gyfer y swyddfa hon yn rhai y gallem eu cymeradwyo'n gyffredinol, ond mae'n gwbl amhriodol mai adran anweinidogol o Lywodraeth y DU, y mae ei phrif swyddogaethau'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl yn llwyr, sy'n cael y swyddogaeth hon heb ddiwygio ei threfniadau llywodraethu'n helaeth.

Gwnaed gwelliannau yn Senedd y DU i roi Swyddfa'r Farchnad Fewnol ar wyneb y Bil a chryfhau rôl y llywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig wrth lywodraethu a goruchwyllo swyddogaethau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (gweler

uchod). **Cynigiodd Llywodraeth Cymru welliannau** i'r Bil wneud cydsyniad y llywodraethau datganoledig yn ofynnol cyn penodi Cadeirydd neu Aelodau i banel Swyddfa'r Farchnad Fewnol a chaniatáu i'r llywodraethau datganoledig benodi un person i Fwrdd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Fodd bynnag, gwrthodwyd y rhain.

Hefyd, codwyd pryderon yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd ynghylch addasrwydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer rhoi cyngor a monitro'r farchnad fewnol. Er enghraifft, **dadleuodd y Farwnes Finlay** y dylid sefydlu Swyddfa'r Farchnad Fewnol fel corff newydd gwirioneddol annibynnol a digyswllt. Diwygiwyd y Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol asesu rôl yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrth gyflawni swyddogaethau o dan Ran 4 rhwng tair a phum mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod yn gyfraith. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ond nid oes rhaid iddo adlewyrchu ei farn yn yr asesiad.

Pwerau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd roi dirwyon i orfodi hysbysiadau casglu gwybodaeth yn erbyn busnesau. Wrth drafod y Bil yn Senedd y DU, dadleuodd rhai seneddwyr y gallai hyn osod baich annheg ar fusnesau. Er enghraifft, **dadleuodd y Farwnes Bowles** fod y pwerau yn y Bil hwn yn ymwneud ag ymchwilio i reoliadau, sydd y tu hwnt i reolaeth busnes yn llwyr, ac nid oes drygioni gan fusnes.

Mae **Llywodraeth y DU wedi dweud** na fydd yn dod â chosbau i rym drwy reoliadau nes bod tystiolaeth glir a chredadwy o'r angen i wneud hynny a'i bod yn disgwyl y byddai cosbau'n cael eu defnyddio fel dewis olaf.

Ni all yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd roi dirwyon i Lywodraeth y DU na'r llywodraethau datganoledig, ond nid oes dim byd penodol i'w atal rhag gosod cosbau ar y deddfwrfeydd datganoledig. Mewn llythyr at Bwyllgor MADY y Senedd ar 9 Rhagfyr, **cadarnhawyd hyn gan yr Arglwydd True, Gweinidog Swyddfa Cabinet y DU**, ond dywedodd ei bod yn annhebygol y byddent yn dal gwybodaeth economaidd berthnasol o ran effeithiau niweidiol ar y farchnad fewnol.

Cysylltiadau rhynglywodraethol a datrys anghydfodau

Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn galluogi Llywodraeth y DU neu'r llywodraethau datganoledig i ofyn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd roi cyngor neu adrodd ar ddarpariaethau rheoleiddiol mewn rhan arall o'r DU os credir eu bod yn cael effaith niweidiol ar weithrediad y farchnad fewnol. Fodd bynnag, nid yw'n sefydlu mecanweithiau ar gyfer cydweithredu na datrys anghydfodau rhwng y llywodraethau ar sut y dylai'r farchnad fewnol weithredu, gan gynnwys sut y dylai Llywodraeth y DU ddefnyddio ei phwerau o dan y Ddeddf.

Cadarnhaodd yr **Asesiad Effaith Rheoleiddiol** sy'n cyd-fynd â'r Bil y byddai mecanweithiau datrys anghydfodau'n seiliedig ar y trefniadau presennol. Fodd bynnag, nododd hefyd y byddai trefniadau rhynglywodraethol penodol yn cael eu datblygu i ddatrys anghydfodau.

Mewn datganiad ar 17 Rhagfyr, **dywedodd Paul Scully AS, Gweinidog Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU, y canlynol:**

We have also agreed to have an annual meeting to review the operation of Parts 1-4 of the UK Internal Market legislation with the Devolved Administrations, including the Office for the Internal Market's reports and new developments that might require the use of delegated powers, using our intergovernmental structures.

Dechreuodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau gwledydd datganoledig yr **adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol** ym mis Mawrth 2018. Mae hyn yn parhau. Mewn **diweddariad cynnydd ar yr adolygiad** ym mis Mawrth 2021, cynigiodd y llywodraethau greu Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol i oruchwylio'r rhaglen fframweithiau cyffredin a thrafod materion sy'n cael effaith ar safonau rheoleiddio ar draws y DU ar gyfer masnach fewnol. Nododd y diweddariad cynnydd hefyd gynigion ar gyfer mecanwaith datrys anghydfodau diwygiedig.

Os na all y llywodraethau ddatrys anghydfodau ynghylch gofynion rheoleiddio, gall busnesau neu unigolion gyflwyno heriau cyfreithiol i'r gofynion hynny o dan y Ddeddf. **Dywedodd Paul Scully AS, Gweinidog y DU, y canlynol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 15 Medi 2020:**

Ultimately, yes, the courts are there as a last resort, but if we have the inter-governmental relationships and build on those, as trusted partners, we will not have to resort to that.

Rôl y Senedd

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd osod adroddiadau gerbron y Senedd. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn nodi sut y dylai'r Senedd ryngweithio â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Yn ei adroddiad gwaddol, **argymhellodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** y Bumed Senedd efallai y byddai angen i bwyllgor newydd ystyried rôl y Senedd wrth oruchwylio'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gan gynnwys:

- a ddylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Senedd neu'r Pwyllgor olynol pan fydd yn gofyn am gyngor neu adroddiad gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol o dan adrannau 35 neu 36 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, ac i Lywodraeth Cymru osod unrhyw adroddiadau o'r fath gerbron y Senedd.
- a ddylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru roi gwybod i'r Senedd pan gaiff Llywodraeth Cymru ei hysbysu bod unrhyw lywodraeth arall wedi gofyn i Swyddfa'r Farchnad Fewnol am gyngor ar effaith andwyol unrhyw ddeddfwriaeth gan y Senedd o dan adran 36 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020.
- a ddylai fod yn ofynnol i Gomisiwn y Senedd hysbysu Aelodau o'r Senedd os yw Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn gofyn iddo ddarparu neu gynhyrchu gwybodaeth i lywio unrhyw rôl gynghori neu fonitro y mae'n ei chyflawni;
- a ddylai'r Senedd neu Bwyllgor Senedd geisio cadw goruchwyliaeth o Swyddfa'r Farchnad Fewnol ac adolygiad yr Ysgrifennydd Gwladol o briodoldeb yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fel y corff sy'n gyfrifol am y rôl gynghori a monitro.

Heriau cyfreithiol a gorfodi

Nid yw Rhan 4 yn caniatáu i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gymryd camau gorfodi yn erbyn llywodraethau na deddfwrfeydd. Mae hyn yn wahanol i rôl y Comisiwn Ewropeaidd yn yr UE. Er y gall y Comisiwn Ewropeaidd ddwyn achos yn erbyn Aelod-wladwriaeth am fethu â chydymffurfio â rheolau'r farchnad fewnol a chyfeirio achosion i Lys Cyfiawnder Ewrop, bydd rôl yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrth ddatrys anghydfod yn gyfyngedig i ddarparu adroddiadau i helpu i'w ddatrys. Nid oes dyletswydd statudol ar ddeddfwrfa na llywodraeth i gymryd camau mewn ymateb i adroddiadau o'r fath.

Gall rhannau 1-3 o'r Ddeddf arwain at heriau cyfreithiol sy'n ymwneud â busnesau a chyrff sy'n gorfodi safonau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Er enghraifft, gall archfarchnad gredu ei bod yn gallu gwerthu nwyddau penodol oherwydd ei bod yn credu bod yr egwyddor cydnabyddiaeth gyffredinol yn gymwys i'r nwyddau. Fodd bynnag, gall corff gorfodi fod o'r farn nad yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gyffredinol yn gymwys ac na ddylid gwerthu'r nwyddau. Gallai hyn arwain at anghydfod cyfreithiol rhwng yr archfarchnad a'r corff gorfodi.

Mae'r **Aseiad Effaith Rheoleiddiol** yn cydnabod y gallai rhanddeiliaid godi cwynion ar faterion marchnad fewnol y DU gyda Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau monitro, adrodd a chynghori annibynnol ac mae'n esbonio y bydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn casglu gwybodaeth am y farchnad gan rhanddeiliaid. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y gallai busnesau ac unigolion ddewis gorfodi eu hawliau yn y llys pe bai mater ynghylch marchnad fewnol y DU yn parhau i fod heb ei ddatrys.

5. Rhan 5: Protocol ynghylch Iwerddon a Gogledd Iwerddon

5.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau

Mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â'r **Protocol ynghylch Iwerddon a Gogledd Iwerddon** y cytunwyd arno ym mis Hydref 2019 fel rhan o'r Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE. Mae'r Protocol yn nodi trefniadau ar ôl Brexit ar gyfer y ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon, sef yr unig ffin ar y tir rhwng y DU a'r UE. Daeth i rym yn llawn o 1 Ionawr 2021, yn dilyn diwedd y cyfnod pontio.

Cytunodd y DU a'r UE yn rhaglith y Protocol nad oes dim byd ynddo sy'n atal y DU rhag sicrhau mynediad dirwysr i'r farchnad ar gyfer nwyddau sy'n symud o Gogledd Iwerddon i weddill marchnad fewnol y DU. Mae hefyd yn nodi bod y Protocol yn parchu swyddogaethau hanfodol y Wladwriaeth ac uniondeb tiriogaethol y DU.

Mae Erthygl 6 o'r Protocol, sy'n dwyn y teitl 'Protection of the UK internal market,' yn ymrwymo Cyd-bwyllgor y DU a'r UE i adolygu masnach rhwng Gogledd Iwerddon a'r rhannau eraill o'r DU yn barhaus ac i fabwysiadu argymhellion gyda'r bwriad o osgoi rheolaethau ym mhorthladdoedd a meysydd awyr Gogledd Iwerddon.

5.2. Sylw arbennig i'r Protocol a symud nwyddau

Mae adran 46 yn ymdrin â lle Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol a thiriogaeth tollau'r DU.

Wrth arfer pwerau sy'n ymwneud â'r Protocol, mae'n rhaid i awdurdodau roi sylw arbennig i dri mater. Mae hyn yn cwmpasu arfer pwerau i weithredu'r Protocol, mynd i'r afael â materion sy'n codi ohono neu at ddiben sy'n ymwneud â symud nwyddau yn y DU a'r tu allan iddi.

Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i awdurdod priodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig Cymreig (fel y'u diffinnir gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 9A iddi), y mae'n rhaid iddynt roi sylw arbennig i'r canlynol:

1. cynnal lle annatod Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol y DU.

2. parchu lle Gogledd Iwerddon fel rhan o diriogaeth tollau'r DU.
3. yr angen i hwyluso llif nwyddau rhydd rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, gyda'r nod o symleiddio masnach a chynnal a chryfhau uniondeb a gweithrediad marchnad fewnol y DU.

5.3. Mynediad dirwystyr

Mae adran 47 yn ymwneud â mynediad dirwystyr i farchnad y DU ar gyfer nwyddau Gogledd Iwerddon. Mae awdurdod priodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, yn cael ei atal rhag arfer unrhyw swyddogaeth mewn ffordd a fyddai'n arwain at wiriadau, rheolaethau neu brosesau gweinyddol newydd ar nwyddau cymhwysol rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr.

Mae'r Ddeddf hefyd yn atal defnyddio gwiriadau, rheolaethau neu brosesau presennol rhag cael eu defnyddio am y tro cyntaf neu at ddiben newydd, neu rhag cael eu cyflwyno.

Mae adran 47(8) yn nodi diffiniadau sy'n ymwneud â gwiriad, rheolaeth neu broses weinyddol. Mae adran 47(9) yn rhoi pwerau rheoleiddio i Weinidog y Goron ddiwygio adran 47 fel ei bod yn gymwys i fath gwahanol neu newydd o symud nwyddau. Mae rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (adran 47(10)).

Mae adran 47(2) yn rhestru eithriadau i'r gofynion hyn ar gyfer y senarios a ganlyn:

- hwyluso mynediad ar gyfer nwyddau cymhwysol Gogledd Iwerddon i farchnad fewnol y DU;
- sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw rwymedigaeth neu drefniad rhyngwladol yn y DU, yn enwedig ag Erthygl 6(1) o'r Protocol (adran 47(3)), neu'n rhoi effaith i hynny;
- os yw'n angenrheidiol pan fo nwyddau wedi'u datgan ar gyfer gweithdrefn tollau wirfoddol;
- os yw'n angenrheidiol at ddibenion TAW neu doll gartref o ganlyniad i'r Protocol (darperir rhagor o feini prawf yn adran 47(4));
- ymdrin â bygythiad i fioggiogelwch ym Mhrydain Fawr (darperir rhagor o feini prawf yn adrannau 47(5) a 47(6)); neu
- ymdrin â bygythiad i ddiogelwch bwyd neu fwyd anifeiliaid ym Mhrydain Fawr (darperir rhagor o feini prawf yn adran 47(7)).

5.4. Cymorth gwladwriaethol

Mae adran 48 yn darparu canllawiau ar Erthygl 10 o'r Protocol ar gymorth gwladwriaethol. Mae Erthygl 10 yn darparu bod deddfwriaeth cymorth gwladwriaethol yr UE yn parhau i fod yn gymwys i'r DU (a restrir yn Atodiad 5 o'r Cytundeb Ymadael). Mae hyn yn cynnwys mesurau sy'n cefnogi cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol, a masnachu ynddynt, yng Ngogledd Iwerddon sy'n effeithio ar fasnach rhwng Gogledd Iwerddon a'r UE o dan y Protocol.

Mae adran 48 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ar gymhwyso Erthygl 10 yn ymarferol o fewn mis ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym ar 1 Ionawr 2021. Mae'n rhaid i berson sydd â swyddogaethau cyhoeddus perthnasol sy'n ymwneud â gweithredu Erthygl 10 roi sylw i'r canllawiau wrth arfer ei swyddogaethau. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol adolygu neu ddisodli'r canllawiau neu eu tynnu'n ôl. Cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet **bapur** ar y Protocol ar 31 Rhagfyr 2020, ond nid yw'n cadarnhau ai dyma'r canllawiau sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf.

Mae adran 48(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Erthygl 10 gael ei darllen yn sgil unrhyw benderfyniad neu argymhelliad perthnasol gan Gyd-bwyllgor y DU a'r UE, neu ddatganiad a wneir gan y naill barti sydd wedi'i gydnabod gan y llall. Mae Cyd-bwyllgor y DU a'r UE yn goruchwyllo gweithrediad y Cytundeb Ymadael.

Mae adran 49 yn nodi mai dim ond yr Ysgrifennydd Gwladol a all ddarparu hysbysiad neu wybodaeth sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol i'r Comisiwn Ewropeaidd (fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 10 o'r Protocol). Mae awdurdodau datganoledig Cymreig wedi'u gwahardd yn benodol rhag gwneud hynny.

5.5. Effaith ymarferol

Mae gweithredu'r Protocol yn broses barhaus, dan oruchwyliaeth Cyd-bwyllgor y DU a'r UE a sefydlwyd gan y Cytundeb Ymadael.

Yn ei hanfod, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau newydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig Cymreig i roi sylw arbennig i faterion penodol sy'n ymwneud â gweithredu'r Protocol, gan eu hatal rhag cyflwyno gwiriadau a phrosesau newydd neu ddefnyddio rhai presennol ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig (megis ymdrin â bygythiad bioddiogelwch).

Gweinidogion Cymru a sylw arbennig

O dan adran 22 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020, rhoddwyd pwerau gwneud rheoliadau eang i Lywodraeth Cymru weithredu'r Protocol mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

Effaith adran 46 o'r Ddeddf yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw arbennig i'r tri mater a nodir uchod wrth arfer pwerau sy'n ymwneud â'r Protocol.

Pwysleisiodd **Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi** nad yw adran 46 yn ystyried agweddau eraill ar y Protocol. Nododd y canlynol am y ddyletswydd newydd o ran sylw arbennig:

[The new 'special regard' duty makes] no reference to the balancing objectives (...) of the Protocol, which are to address the unique circumstances on the island of Ireland (including maintaining the necessary conditions for continued North-South cooperation and avoiding a hard border), and to protect the 1998 Belfast/Good Friday Agreement in all its dimensions.

Nor is there any reference to the recitals to the Protocol. In other words, [section 46] is selective, requiring Ministers, in implementing the Protocol, to have regard only to its inward-looking, domestic objectives, not those that relate to the unique circumstances on the island of Ireland.

Dyletswydd newydd yw hon ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau datganoledig Cymreig ac nid yw'n hysbys eto sut y bydd yn gweithredu'n ymarferol. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio sylw arbennig a bydd y dyletswyddau a gynhwysir ynddi'n debygol o ofyn cydbwysedd o rwymedigaethau sy'n gorgyffwrdd, megis y rhai a gynhwysir yn y Protocol neu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE.

Ceir enghraifft yn rheoliadau diweddar Llywodraeth Cymru. Mae **Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021** yn diwygio ffioedd ardystio iechyd planhigion perthnasol fel nad ydynt yn gymwys i nwyddau sy'n symud o Gymru i fusnes neu unigolyn preifat yng Ngogledd Iwerddon.

Heb y rheoliadau, gallai ffioedd neu daliadau fod wedi cael eu cyflwyno i dalu costau rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, megis ardystio cyn allforio neu wrth allforio. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn benodol yn cadarnhau bod y ddyletswydd a gynhwysir yn adran 46 yn gymwys, mae'n nodi'r canlynol ym Memorandwm Esboniadol y rheoliadau:

If pre-exit fees related to production of phytosanitary certificates were not amended, they would apply in full to trade in regulated plants, plant products and other objects between Wales and Northern Ireland. This would add additional costs to businesses when carrying out trade within the UK internal market.

Mynediad dirwysr

Wrth anelu at sicrhau mynediad dirwysr ar gyfer nwyddau Gogledd Iwerddon i farchnad y DU, mae'r Ddeddf yn atal Gweinidogion Cymru neu awdurdodau datganoledig Cymreig rhag arfer unrhyw swyddogaeth mewn ffordd a fyddai'n arwain at ddefnyddio gwiriadau, rheolaethau neu brosesau gweinyddol newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr ar nwyddau cymhwysol, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig, megis ymdrin â bygythiad i ddiogelwch bwyd neu fwyd anifeiliaid neu fygythiad i fioggiogelwch ym Mhrydain Fawr.

Cymorth gwladwriaethol

Mae darpariaethau'r Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig Cymreig roi sylw i **ganllawiau Llywodraeth y DU** ar gymhwyso Erthygl 10 o'r Protocol wrth arfer eu swyddogaethau, y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol eu hadolygu, eu disodli neu eu tynnu'n ôl.

Mae'n rhaid iddo wneud hynny yn sgil unrhyw benderfyniad neu argymhelliad perthnasol gan Gyd-bwyllgor y DU a'r UE, neu ddatganiad a wneir gan y naill barti sydd wedi'i gydnabod gan y llall.

At hynny, mae'r Ddeddf yn gwahardd Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig Cymreig rhag darparu hysbysiad neu wybodaeth sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig ddarparu hyn.

6. Rhan 6: Cymorth ariannol

6.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau

Mae adran 50 yn rhoi pwerau eang i Lywodraeth y DU ddarparu cymorth ariannol i unrhyw berson at ystod eang o ddibenion penodedig, neu mewn cysylltiad â hwy. Mae'r dibenion hyn yn cynnwys hyrwyddo datblygiad economaidd, darparu seilwaith, cefnogi gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol, a chefnogi gweithgareddau a rhaglenni cyfnewid addysgol a hyfforddi.

Mae'r pwerau cymorth ariannol yn estyn i ariannu gweithgareddau mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Mae adran 51 yn darparu y gellir darparu'r cymorth ariannol drwy grantiau, benthyciadau, gwarantau, indemniadau neu unrhyw fath arall o gymorth. Gellir ei ddarparu hefyd dan gontract, yn ddarostyngedig i amodau ad-dalu neu ei ddarparu i gronfa fuddsoddi ar gyfer y dyfodol.

6.2. Effaith ymarferol

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu defnyddio'r pwerau cymorth ariannol newydd i sefydlu dwy gronfa benodol:

- Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (gan ddechrau gyda **Chronfa Adfywio Cymunedol y DU**), a fydd yn disodli cronfeydd strwythurol yr UE;
- '**Cronfa Codi'r Gwastad**'. Cronfa i Loegr i ddechrau, ond cafodd ei **hestyn** wedi hynny i'r DU gyfan.

Roedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn feirniadol o'r cynlluniau hyn, gan ddadlau y dylent gael eu cynnwys yn llawn mewn unrhyw gynllun sy'n disodli cronfeydd strwythurol yr UE. Hefyd, roedd **pryderon** gan y llywodraethau datganoledig na fydd lefel y cyllid a addawyd gan Lywodraeth y DU yn cyfateb i'r Cronfeydd Strwythurol, gan adlewyrchu'r ffaith bod y gwledydd datganoledig wedi cael mwy o elw fesul pen na Lloegr o gyllid yr UE.

Awgrymodd **Llywodraeth flaenorol Cymru** fod Llywodraeth y DU â chynlluniau i "osgoi'r setliad datganoli" a dadleuodd fod y ddeddfwriaeth, am y tro cyntaf yn yr 21 mlynedd ers datganoli, yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU ariannu gweithgarwch mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y tri Gweinidog Cyllid datganoledig **ddatganiad ar y cyd** yn amlinellu eu pryderon a rennir am y cynigion i ddyrannu cronfeydd newydd yr UE, gan nodi'r canlynol:

Anwybyddodd Llywodraeth y DU ymdrechion a cheisiadau'r Llywodraethau Datganoledig i gyfrannu at y broses o ddatblygu'r cronfeydd hyn am bron i dair blynedd ac mae nawr yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU i'n hepgor ni'n llwyr.

Awgrymodd Simon Hart, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y byddai gan y cronfeydd fwy o fewnbwn lleol na chronfeydd strwythurol yr UE a'u bod yn cynrychioli estyniad o'r broses ddatganoli. Hefyd, **dywedodd** fod Cronfa Codi'r Gwastad yn fuddsoddiad sylweddol yng Nghymru.

Fodd bynnag, wrth ymateb i'r cyhoeddiad hwn, cyhoeddwyd **datganiad ar y cyd** gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar y pryd ym mis Chwefror 2021, yn nodi'r canlynol:

Mae'n bwysig pwysleisio nad oes unrhyw ran o hwn yn arian newydd sy'n cael ei ddyrannu i Gymru [...]. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu bod Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniadau ar faterion datganoledig yng Nghymru heb fod yn atebol i Senedd Cymru ar ran pobl Cymru.

Nid yw'n eglur sut neu a fydd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â dyrannu'r cronfeydd newydd, na sut y bydd gwaith craffu yn cael ei wneud ar y penderfyniadau gwario.

7. Rhan 7: Rheoli Cymorthdaliadau

7.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau

Mae adran 52 o'r Ddeddf yn cadw'n ôl i Senedd y DU y gallu unigryw i ddeddfu ar gyfer cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau.

O ran Cymru, mae adran 52(3) o'r Ddeddf yn gwneud hyn drwy ychwanegu rheoleiddio cymorthdaliadau ystumiol a niweidiol at y rhestr o faterion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

7.2. Effaith ymarferol

Yn gyffredinol, mae cymhorthdal yn gyfraniad ariannol sy'n defnyddio adnoddau cyhoeddus sy'n rhoi budd i'r derbynnydd. Mae nifer o fathau o gymorthdaliadau, gan gynnwys grantiau, taliadau arian parod, benthyciadau islaw cyfradd y farchnad a gwarantau benthyciad.

Heb eu rheoleiddio, gall cymorthdaliadau achosi effeithiau ystumiol a rhoi mantais i rai cwmnïau, diwydiannau neu wledydd dros eu cystadleuwyr.

Fel aelod o'r UE, roedd y DU yn ddarostyngedig i reolau'r UE ar gymorthdaliadau (a elwir hefyd yn gymorth gwladwriaethol) a oedd yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Nawr bod y DU wedi gadael yr UE, gall ddewis cynllunio cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau newydd.

Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru wedi **dadlau** bod cymorth gwladwriaethol wedi'i ddatganoli gan nad yw'n fater a gedwir yn ôl dan unrhyw bennawd o'r Atodlen Materion a Gedwir yn ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mewn gwrthgyferbyniad, mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei chred ers amser maith bod rheoleiddio cymorth gwladwriaethol yn fater a gedwir yn ôl, sy'n golygu mai Senedd y DU yn unig sy'n gyfrifol amdano ac nad yw'r deddfwrfeydd datganoledig yn gallu deddfu yn y maes hwn.

Drwy gadw rheolaeth cymorthdaliadau i Senedd y DU yn benodol, dileodd y Ddeddf Marchnad Fewnol unrhyw amwysedd a'i rhoi y tu hwnt i amheuaeth nad yw rheoli cymorthdaliadau'n fater sydd wedi'i ddatganoli.

Cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau yn y dyfodol

Mae'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE** yn nodi mai mater i'r DU a'r UE eu hunain yw penderfynu sut y mae eu rhwymedigaethau'n cael eu gweithredu wrth gynllunio eu cyfundrefnau cymorthdaliadau domestig eu hunain, ar yr amod eu bod yn cadw at ddarpariaethau perthnasol y Cytundeb Masnach.

Ar 30 Mehefin 2021, cyflwynodd Llywodraeth y DU y **Bil Rheoli Cymorthdaliadau** i Dŷ'r Cyffredin. Mae'r Bil yn rhoi'r fframwaith ar gyfer cyfundrefn newydd o reoli cymorthdaliadau ar gyfer y DU gyfan.

Er bod rheoli cymorthdaliadau bellach yn fater a gedwir yn ôl, mae'r Bil **yn gwneud darpariaeth benodol** o fewn cymhwysedd datganoledig sydd angen cydsyniad y Senedd. Ar yr adeg ysgrifennir hyn, **nid yw Llywodraeth Cymru yn argymhell cydsyniad deddfwriaethol** oni bai y caiff y Bil ei ddiwygio i fynd i'r afael â'i phryderon.

8. Rhan 8: Darpariaethau Terfynol

8.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau

Mae Rhan 8 o'r Ddeddf yn nodi darpariaethau pellach mewn perthynas â'r Protocol ynghylch Iwerddon a Gogledd Iwerddon a manylion y weithdrefn y dylid ei chymhwyso pan wneir rheoliadau o dan y Ddeddf. Mae'n cynnwys cymal dehongli cyffredinol ac yn nodi darpariaethau mewn perthynas â'i rychwant a'i gychwyn.

Mae adran 54 yn diwygio Deddf yr Alban 1998, Deddf Gogledd Iwerddon 1998 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i warchod y ddeddf rhag cael ei haddasu gan y deddfwrfeydd hyn.

8.2. Effaith ymarferol

Mae adran 54 o'r Ddeddf yn diwygio Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gynnwys y Ddeddf yn y rhestr o ddeddfiadau gwarchodedig a gynhwysir yn yr atodlen hon. Mae deddfiadau gwarchodedig Deddfau Senedd y DU yn Ddeddfau na all deddfwriaeth Senedd Cymru eu haddasu. Mae'r rhestr hon o Ddeddfau'n fyr ac mae'n cynnwys Deddfau megis Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Yn ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil, **dywedodd** Pwyllgor Materion Allanol y Bumed Senedd y canlynol:

Mae gwneud y Bil yn ddeddfiad gwarchodedig yn golygu na all y deddfwrfeydd datganoledig ddiwygio unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil fel y maent yn ymwneud â'u gwledydd, ond nid yw Llywodraeth y DU, gan weithredu fel y mae ar ran Lloegr mewn meysydd polisi datganoledig, wedi'i chyfyngu rhag gwneud newidiadau i'r Bil yn y dyfodol drwy Senedd y DU.